OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 1512 (Cy.138)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man Casglu Tollau Rogiet, Sir Fynwy)(Terfyn Cyflymder 50 mya) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *27 Mai 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *3 Mehefin 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *24 Mehefin 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 17(2) a (3) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), ac wedi ymgynghori â sefydliadau cynrychioliadol yn unol ag adran 134(2)(**2**) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

### Enwi a chychwyn

**1.** Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 24 Mehefin 2010 a'u henw yw Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man Casglu Tollau Rogiet, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2010.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y draffordd" ("*the motorway*") yw Traffordd Llundain i Dde Cymru (yr M4).

### Gosod terfyn cyflymder

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y rhan honno o gerbytffordd y draffordd tua'r gorllewin yn Rogiet yn Sir Fynwy sy'n estyn o bwynt 800 o fetrau i'r dwyrain o linell ganol trosbont Heol yr Orsaf hyd at bwynt 752 o fetrau i'r gorllewin o linell ganol trosbont Heol yr Orsaf.

### Dirymiad

**4.** Dirymir Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man Casglu Tollau Rogiet, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2005(**3**) drwy hyn.

(**1**) 1984 p.27. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) Diwygiwyd adran 134(2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991, adran 168(1), Atodlen 8, paragraff 77.

(**3**) O.S. 2005/1450 (Cy.113).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Ieuan Wyn Jones*
Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

27 Mai 2010

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod terfyn cyflymder o 50 milltir yr awr ar ddarn penodol o Drafford yr M4 yn Sir Fynwy.

Mae'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 17(2) a (3) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (ac eithrio mewn perthynas â ffyrdd arbennig yn gyffredinol) gan Weinidogion Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu'r terfyn cyflymder presennol o 50 milltir yr awr a osodir gan Reoliadau Traffordd yr M4 (Man Casglu Tollau Rogiet, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2005, sy'n ymwneud â rhan o'r darn o draffordd a lywodraethir gan y Rheoliadau hyn.

Ystyrir bod y terfyn cyflymder 50 milltir yr awr yn rhagofal diogelwch hanfodol er mwyn galluogi traffig i arafu wrth ddynesu at Fan Casglu Tollau Ail Bont Hafren ac uno'n ddiogel o'r bythau toll yn y Man Casglu Tollau.

Ni wnaed asesiad effaith rheoleiddiol llawn ar gyfer yr offeryn hwn gan mai er mwyn diogelwch ar y ffordd y mae'n cael ei wneud ac nid yw'n effeithio ar gostau busnes.